

Y Gwasanaeth Cynghori ar Gynlluniau Datblygu: Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru 2023-2024

1 Gorffennaf 2024

Ein perfformiad

Trosolwg perfformiad

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cawsom 7,964 o ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio, gan gynnwys datblygiadau mân a mawr a datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.

Ymatebwyd i 7,982 o ymgynghoriadau, gyda 7,910 o'r rheini wedi'u cyflwyno o fewn terfyn amser statudol neu derfyn amser y cytunwyd arno fel arall, sef 99% o'r ymatebion. Cyflwynwyd 72 o ymatebion i'r ymgynghoriad y tu allan i'r terfynau amser statudol neu derfynau amser cytunedig eraill.

Mae ffigurau 1-5 isod yn rhoi rhagor o fanylion am ein perfformiad yn ôl y math o ymgynghoriad.

Mae'r gwahaniaeth rhifyddol rhwng yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd ac ymatebion sylweddol a gyflwynwyd yn adlewyrchu gwaith sy'n mynd rhagddo lle mae terfynau amser rhagnodedig yn ymestyn ar draws cyfnodau adrodd gwahanol.

Materion a thueddiadau allweddol

Tueddiadau

Mae nifer yr ymgynghoriadau a dderbyniwyd yn ymwneud â datblygiadau mawr a mân yn weddol debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd blaenorol.

Mae nifer y ceisiadau sy'n gysylltiedig â datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol yn parhau i gynyddu. O ystyried natur cynlluniau o'r fath, maent fel arfer yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran adnoddau ar draws nifer o arbenigaethau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cynllun corfforaethol

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd CNC [Ein cynllun corfforaethol hyd at 2030: byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd](#). Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dri amcan llesiant allweddol, fel a ganlyn:

- adfer byd natur
- datblygu'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd
- lleihau llygredd

Credwn fod cynllunio effeithiol yn arf hanfodol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ac felly mae gan ein gwasanaeth cynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol. Mae'r cynllun corfforaethol hefyd yn rhoi rôl eiriolaeth gryfach inni ac rydym yn ystyried hyn o ran y pynciau yr ydym yn ymgysylltu â hwy o ran polisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

Cyngor a chanllawiau

Rydym wedi parhau i roi cyngor i gefnogi'r gwaith o ystyried gorchmynion cydsyniad datblygu a Chynlluniau Datblygu Lleol, ac mewn ymateb i newidiadau arfaethedig i bolisiâu cynllunio cenedlaethol a'r DU. Rydym hefyd wedi bod yn datblygu ffocws cynyddol ar yr amcanion llesiant yng nghynllun corfforaethol CNC o ran eiriolaeth a chyngor strategol (gweler uchod). Rydym hefyd wedi cyngori Llywodraeth Cymru ar ei hymgyngoriad ar y canlynol:

- Y Bil Seilwaith (Cymru), a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i graffu arno (4 Mehefin – 1 Awst 2023)
- Newidiadau polisi a dargedir i Bolisi Cynllunio Cymru ynglŷn â'r budd net i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (9 Mawrth – 31 Mai 2023)

I gefnogi'r sector amaethyddol, rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar ba wybodaeth y byddem yn ei disgwyl i gefnogi ceisiadau sy'n ymwneud â datblygiadau amaethyddol: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Beth i'w ddarparu gyda'ch cais cynllunio ar gyfer datblygiad amaethyddol](#). Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd ac yn helpu i leihau oedi yn y broses gynllunio.

Dalgylchoedd sensitif i faethynnau

Mae datblygiadau a allai effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol sy'n sensitif i faethynnau yn parhau i fod yn destun sylw. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi asesiad o briodoleddau ansawdd dŵr eraill yn erbyn targedau mewn afonydd ACA ([Asesiad Cydymffurfedd o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Cymru yn Erbyn Targedau Ansawdd Dŵr \(cyfoethnaturiol.cymru\)](#)). Roedd yr astudiaeth yn cynnwys asesiad o amonia, a all gael effeithiau gwenwynig uniongyrchol ar fywyd dyfrol neu fod yn llygrydd sy'n arwain at orfaethu. Er y canfuwyd bod y rhan fwyaf o ddalgylchoedd ACA yn cyrraedd targedau amonia, bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried effeithiau datblygiadau ar ollyngiadau amonia i afonydd ACA.

Rydym yn parhau i ddarparu canllawiau perthnasol i awdurdodau cynllunio ac yn disgwyl cyhoeddi'r diweddariad nesaf i'n cyngor sefydlog ym mis Gorffennaf 2024.

Rydym wedi cynnal adolygiad o drwyddedau amgylcheddol ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff mwy mewn dalgylchoedd afonydd ACA ac, fel mesur i adfer ansawdd dŵr afonydd ACA, rydym wedi lleihau faint o faethynnau y gellir eu gollwng. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru i sicrhau bod gwelliannau priodol ar gyfer gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn cael eu cynnwys yn ei gynllun buddsoddi. Mae'r adolygiad o drwyddedau hefyd yn galluogi Dŵr Cymru i gynghori awdurdodau cynllunio ynghylch a oes capasiti ar gyfer datblygiadau newydd i gysylltu â rhai carthffosydd cyhoeddus.

Adnoddau

Mae gwasanaethau statudol cymorth grant wedi cael eu rhoi dan bwysau gyda chynnydd mewn costau byw a chyfyngiadau cyllidebol yn CNC, sy'n golygu bod gennym swyddi gwag am gyfnodau hir o amser. Yn ei dro, mae hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i ddarparu

cyngor yn ôl disgrisiwn, gyda nifer cynyddol o geisiadau gan ddatblygwyr yn cael eu gwrthod. I gydnabod y wasgfa ar ein gwasanaethau, rydym yn ceisio newid ein model darparu gwasanaeth cynllunio i gynyddu ehangder ein cyngor sefydlog fel bod datblygwyr ac awdurdodau cynllunio yn cael mwy o gyngor "hunanwasanaeth" ar faterion sydd â risg isel, a'u bod yn ymwybodol o pryd a sut i ystyried effeithiau amgylcheddol posibl. Mae hyn yn rhan o adolygiad ehangach o sut rydym yn cyflawni ein rôl fel cynghorydd ac ymgynghorai statudol yn y system gynllunio fel bod lefel ein gwasanaeth yn adlewyrchu ein capasiti o ran adnoddau. Byddwn yn trafod hyn ymhellach gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Yn yr un modd â'r sector cynllunio yn ei gyfanrwydd, mae recriwtio i lenwi swyddi gwag yn ystod y flwyddyn wedi parhau i fod yn heriol.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

0300 065 3000 (dydd Llun – dydd Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru